OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 802 (Cy.87)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002

*Wedi'u gwneud* - - *21 Mawrth 2002*

*Yn dod i rym* - - *1 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 18(1), (2), 19(1), (2), (4), (5), (6), 20(1), (2), 105(2) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**):—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**2**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*") at ddibenion Rheoliadau 6(2), (3) ac 11(4) yw—

(a) y maer etholedig os oes gan yr awdurdod lleol weithrediaeth maer a chabinet;

(b) y rheolwr cyngor os oes gan yr awdurdod lleol weithrediaeth maer a rheolwr cyngor;

(c) arweinydd y weithrediaeth os oes gan yr awdurdod lleol weithrediaeth arweinydd a chabinet a bod y pŵer i wneud y trefniadau yn codi yn rhinwedd is-baragraffau (b), (c) neu (ch) o reoliad 4(1);

(**1**) 2000 p.22

(**2**) 1972 p.70.

ystyr "pwyllgor ardal" ("*area committee*") yw pwyllgor neu is-bwyllgor i awdurdod lleol fel y'i diffinnir yn adran 18(3) o Ddeddf 2000.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

## Y pŵer i wneud trefniadau: gweithrediaethau maer a chabinet

**3.** Yn achos awdurdod lleol a chanddo weithrediaeth maer a chabinet, mae gan y personau canlynol bŵ er i wneud trefniadau o dan reoliadau 6 a 7 ac i wneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11—

(a) y maer etholedig mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth;

(b) oni bai bod y maer etholedig yn cyfarwyddo fel arall, gweithrediaeth yr awdurdod lleol, aelod o'r weithrediaeth heblaw'r maer etholedig, neu bwyllgor o'r weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau a all gael eu cyflawni, yn rhinwedd adran 14 o Ddeddf 2000, gan y weithrediaeth, yr aelod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

## Y pŵer i wneud trefniadau: gweithrediaethau arweinydd a chabinet

**4.**—(1) Yn achos awdurdod lleol a chanddo weithrediaeth arweinydd a chabinet, mae gan y personau canlynol bŵ er i wneud trefniadau o dan reoliadau 6 a 7 ac i wneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11—

(a) y weithrediaeth, aelod o'r weithrediaeth, neu bwyllgor o'r weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau a ddyrennir gan drefniadau gweithrediaeth i'r weithrediaeth, i'r aelod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, i'r pwyllgor hwnnw;

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, y weithrediaeth, aelod o'r weithrediaeth neu bwyllgor o'r weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau y mae arweinydd y weithrediaeth wedi trefnu iddynt gael eu cyflawni gan y weithrediaeth, yr aelod hwnnw, neu yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor hwnnw;

(c) yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, pwyllgor o'r weithrediaeth, mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau y mae'r weithrediaeth wedi trefnu iddynt gael eu cyflawni gan y pwyllgor hwnnw yn rhinwedd adran 15(5)(a) o Ddeddf 2000;

(ch) arweinydd y weithrediaeth mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth i'r graddau nad ydynt wedi'u dyrannu drwy ddarpariaeth a wnaed mewn trefniadau gweithrediaeth.

(2) Os yw arweinydd y weithrediaeth yn gwneud unrhyw drefniadau o dan reoliad 6 neu 7 neu'n gwneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11, caiff gyfarwyddo, bryd hynny neu ar unrhyw adeg ddilynol, nad yw paragraff (1)(b) neu (c) uchod i fod yn gymwys i unrhyw un o'r swyddogaethau sy'n dod o dan y trefniadau hynny neu nad yw i fod yn gymwys i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny mewn unrhyw achosion neu amgylchiadau y gallai arweinydd y weithrediaeth eu cyfarwyddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Y pŵer i wneud trefniadau: gweithrediaethau maer a rheolwr cyngor

**5.** Yn achos awdurdod lleol a chanddo weithrediaeth maer a rheolwr cyngor, mae gan y personau canlynol bwer i wneud trefniadau o dan reoliadau 6 a 7 ac i wneud trefniadau o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 yn unol â rheoliad 11—

(a) y rheolwr cyngor mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth;

(b) gweithrediaeth yr awdurdod lleol mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau a all gael eu cyflawni, yn rhinwedd adran 16 o Ddeddf 2000, gan y weithrediaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Cyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau ardal

**6.**—(1) Caiff person sydd â phŵ er i wneud trefniadau o dan y rheoliad hwn drefnu i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol perthnasol gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal o'r awdurdod hwnnw.

(2) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal yn rhinwedd y rheoliad hwn, yna, oni bai bod y person perthnasol yn cyfarwyddo fel arall, caiff y pwyllgor ardal drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan is-bwyllgor o'r pwyllgor hwnnw neu gan un o swyddogion yr awdurdod.

(3) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni gan is-bwyllgor o bwyllgor ardal yn rhinwedd paragraff (2) uchod, yna, oni bai bod y pwyllgor ardal neu'r person perthnasol yn cyfarwyddo fel arall, caiff yr is-bwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan un o swyddogion yr awdurdod.

(4) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir o dan y rheoliad hwn gan berson a bennir yn rheoliad 3, 4 neu 5 uchod ar gyfer cyflawni unrhyw swyddogaethau gan bwyllgor ardal i atal y person hwnnw rhag arfer y swyddogaethau hynny.

(5) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud trefniadau o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r weithrediaeth sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod i gael eu harchwilio gan aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol.

(6) Wrth baratoi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (5) uchod, rhaid i'r weithrediaeth roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 38 o Ddeddf 2000.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Cyflawni swyddogaethau gan awdurdod lleol arall

**7.**—(1) Caiff person sydd â phŵ er i wneud trefniadau o dan y rheoliad hwn wneud trefniadau gydag awdurdod lleol arall yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Caiff trefniadau o dan y rheoliad hwn ddarparu—

(a) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni naill ai gan awdurdod lleol arall neu gan weithrediaeth yr awdurdod arall hwnnw os yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth i'r awdurdod lleol arall hwnnw ond nad yw'n un sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw;

(b) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall os yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw;

(c) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall os nad yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth i'r awdurdod lleol arall hwnnw a bod gan yr awdurdod arall hwnnw weithrediaeth;

(ch) i swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth un awdurdod lleol gael ei chyflawni gan awdurdod lleol arall os nad yw'r swyddogaeth honno yn swyddogaeth i'r awdurdod lleol arall hwnnw ac nad oes gan yr awdurdod arall hwnnw weithrediaeth.

(3) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir o dan y rheoliad hwn i atal y person a wnaeth y trefniadau rhag arfer y swyddogaethau y maent yn ymwneud â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Trefniadau i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall

**8.**—(1) Caiff awdurdod lleol wneud trefniadau gydag awdurdod lleol arall i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw gyflawni unrhyw swyddogaethau i'r awdurdod cyntaf a grybwyllwyd nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw—

(a) os nad yw'r swyddogaethau yn swyddogaethau i'r awdurdod lleol arall hwnnw; neu

(b) os yw'r swyddogaethau yn swyddogaethau i'r awdurdod lleol arall hwnnw ac yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod arall hwnnw.

(2) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir o dan y rheoliad hwn i atal yr awdurdod a wnaeth y trefniadau rhag arfer y swyddogaethau y maent yn ymwneud â hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

### Swyddogaethau a ddirprwyir i awdurdod lleol arall at ddibenion adrannau 14 ac 16 o Ddeddf 2000

**9.** Os oes trefniadau mewn grym yn rhinwedd rheoliad 7 neu 8 uchod i unrhyw un o swyddogaethau awdurdod lleol, neu i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw, gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall, rhaid trin y swyddogaethau hynny, at ddibenion adrannau 14 i 16 o Ddeddf 2000, fel swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

## Arfer swyddogaethau gan awdurdod lleol arall

**10.**—(1) Os oes trefniadau mewn grym, yn rhinwedd rheoliad 7 uchod, i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol gael eu cyflawni gan awdurdod lleol arall, yna, yn ddarostyngedig i delerau'r trefniadau, caiff yr awdurdod arall hwnnw drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog iddynt.

(2) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni, yn rhinwedd paragraff (1) uchod, gan bwyllgor i awdurdod lleol, yna, oni bai bod yr awdurdod hwnnw'n cyfarwyddo fel arall, caiff y pwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan is-bwyllgor neu swyddog i'r awdurdod.

(3) Os gall unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni, yn rhinwedd paragraff (1) neu (2) uchod, gan is-bwyllgor i awdurdod lleol, yna, oni bai bod yr awdurdod hwnnw neu, yn ôl fel y digwydd, y pwyllgor hwnnw yn cyfarwyddo fel arall, caiff yr is-bwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael ei chyflawni gan un o swyddogion yr awdurdod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

## Arfer swyddogaethau ar y cyd

**11.**—(1) Rhaid i drefniadau a wneir o dan adran 101(5) o Ddeddf 1972 gan berson y mae rheoliad 3, 4 neu 5 uchod yn rhoi'r pŵer iddo wneud hynny, gael eu gwneud yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Rhaid i'r trefniadau gael eu gwneud—

(a) os yw'r swyddogaethau y mae'r trefniadau'n ymwneud â hwy yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall o dan sylw, gyda'r person sydd, yn rhinwedd rheoliad 3, 4 neu 5 uchod, â phwer i wneud trefniadau o'r fath ar ran yr awdurdod hwnnw;

(b) mewn unrhyw achos arall, gyda'r awdurdod lleol arall.

(3) Os yw'r trefniadau yn darparu i swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyd-bwyllgor, rhaid i benodiadau'r personau sydd i gynrychioli pob awdurdod lleol ar y pwyllgor hwnnw gael eu gwneud, a rhaid i nifer y personau hynny sydd i'w penodi gael ei benderfynu, gan y person sy'n gwneud y trefniadau ar ran yr awdurdod hwnnw.

(4) Yn ddarostyngedig i delerau'r trefniadau ac oni bai bod y person perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod lleol y mae ei swyddogaethau'n destun y trefniadau yn cyfarwyddo fel arall, caiff cyd-bwyllgor a benodir yn unol â'r rheoliad hwn drefnu i unrhyw un o'i swyddogaethau gael ei chyflawni gan is-bwyllgor neu swyddog i un o'r awdurdodau o dan sylw, ac yn ddarostyngedig i delerau'r trefniadau ac oni bai bod y cyd-bwyllgor neu'r person perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod lleol y mae ei swyddogaethau'n destun y trefniadau yn cyfarwyddo fel arall, caiff unrhyw is-bwyllgor o'r fath drefnu i unrhyw un o'i swyddogaethau gael ei chyflawni gan swyddog o'r fath.

(5) Nid yw unrhyw drefniadau a wneir yn unol â'r rheoliad hwn gan berson a bennir yn rheoliadau 3, 4 neu 5 uchod i unrhyw swyddogaethau gael eu cyflawni gan gyd-bwyllgor i atal y person hwnnw rhag arfer y swyddogaethau hynny.

(6) Os yw trefniadau a wneir ar ran awdurdod lleol yn unol â'r rheoliad hwn gan berson a bennir yn rheoliad 3, 4 neu 5 uchod yn darparu ar gyfer penodi personau nad ydynt yn aelodau o

weithrediaeth yr awdurdod hwnnw i gyd-bwyllgor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud y trefniadau, rhaid i'r person hwnnw sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod i gael eu harchwilio gan aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol.

(7) Rhaid i berson sy'n paratoi'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (6) uchod roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 38 o Ddeddf 2000.

(8) Bydd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001(**3**) yn gymwys i gyfarfod o gyd-bwyllgor—

(a) a sefydlir gan drefniadau a wneir yn unol â'r rheoliad hwn yn unig gan weithrediaethau, aelodau gweithrediaethau neu bwyllgorau gweithrediaethau os yw'r holl weithrediaethau o dan sylw yn cynnal eu cyfarfodydd yn breifat; a

(b) lle nad oes yr un o'i aelodau yn aelod o un o'r awdurdodau lleol o dan sylw ond nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod hwnnw,

fel pe bai cyfarfodydd y cyd-bwyllgor hwnnw yn gyfarfodydd preifat o bwyllgor gweithrediaeth awdurdod lleol, oni bai bod yr holl weithrediaethau hynny yn cytuno fel arall.

(9) Ac eithrio fel y disgrifir ym mharagraff (8) uchod, bydd Rhan VA o Ddeddf 1972 (cael mynediad i gyfarfodydd a chael gweld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol) yn gymwys i gyd-bwyllgorau a sefydlir yn unol â'r rheoliad hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**Aelodau cyd-bwyllgorau**

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) isod, rhaid i bob person a benodir i gyd-bwyllgor yn unol â rheoliad 11 uchod gan weithrediaeth, aelod gweithrediaeth neu bwyllgor gweithrediaeth fod yn aelod o'r weithrediaeth honno, ac ni fydd y gofynion ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn gymwys wrth benodi aelodau o'r fath.

(2) Os gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor yw'r weithrediaeth o dan sylw—

(a) rhaid i'r maer etholedig beidio â bod yn aelod o'r cyd-bwyllgor; a

(b) caiff y rheolwr cyngor naill ai fod yn aelod o'r cyd-bwyllgor neu drefnu i un arall o swyddogion yr awdurdod lleol fod yn aelod o'r cyd-bwyllgor, a bydd yr aelod hwnnw yn aelod gyda phleidlais o'r pwyllgor hwnnw.

(3) Os—

(a) oes gan y cyd-bwyllgor swyddogaethau mewn perthynas â rhan yn unig o ardal un o'r awdurdodau lleol o dan sylw;

(b) yw'r swyddogaethau hynny yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod hwnnw; ac

(c) naill ai—

(i) nad yw arwynebedd y rhan honno yn fwy na dwy ran o bump o gyfanswm arwynebedd yr awdurdod; neu

(ii) nad yw poblogaeth y rhan honno, yn ôl amcangyfrif yr awdurdod, yn fwy na dwy ran o bump o gyfanswm poblogaeth yr awdurdod yn ôl yr amcangyfrif hwnnw,

caiff cynrychiolwyr yr awdurdod hwnnw ar y cyd-bwyllgor gynnwys unrhyw aelodau o'r awdurdod hwnnw sydd wedi'u hethol dros adrannau neu wardiau etholiadol sydd yn gyfan

(**3**) O.S. 2001/2290 (Cy.178)

gwbl neu'n rhannol o fewn y rhan honno o ardal yr awdurdod, ac ni fydd y gofynion ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn gymwys wrth benodi'r aelodau hynny.

(4) Os oes gan y cyd-bwyllgor swyddogaethau mewn perthynas â rhan o ardal un o'r awdurdodau lleol o dan sylw a bod cynrychiolwyr yr awdurdod hwnnw ar y pwyllgor hwnnw yn cael eu penodi gan yr awdurdod, ni fydd y gofynion ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn gymwys wrth benodi'r cynrychiolwyr hynny a rhaid i'r cynrychiolwyr hynny fod yn aelodau o'r awdurdod lleol hwnnw sydd wedi'u hethol dros adrannau neu wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y rhan honno o ardal yr awdurdod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

**Diddymu**

**13.** Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001(**4**) drwy hyn yn cael eu diddymu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 1.4.2002, gweler **rhl. 1(1)**

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis - Thomas*
21 Mawrth 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) O.S. 2001/2287 (Cy.175)
(**5**) 1998 p.38

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (“y Ddeddf”) yn darparu i'r awdurdodau lleol wneud trefniadau (“trefniadau gweithrediaeth”) ar gyfer creu a gweithredu gweithrediaeth o'r awdurdod, sef trefniadau y mae rhai o swyddogaethau'r awdurdod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth odanynt.

O dan adrannau 18 a 19 o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, sy'n galluogi gweithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru, neu bwyllgor neu aelod penodedig o weithrediaeth o'r fath, i wneud trefniadau i unrhyw swyddogaethau sydd, o dan y trefniadau gweithrediaeth yn gyfrifoldeb i'r awdurdod, gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal o'r awdurdod neu gan awdurdod lleol arall.

Mae adran 19 o'r Ddeddf hefyd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth sy'n galluogi awdurdod lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod gael ei chyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall.

O dan adran 20 o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n galluogi awdurdod lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i unrhyw swyddogaethau sydd, o dan y trefniadau gweithrediaeth, yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod gael eu cyflawni gan yr awdurdod hwnnw ac un neu ragor o awdurdodau lleol eraill ar y cyd.

Mae Rheoliadau 3, 4 a 5 yn pennu'r personau sydd â'r pwer i wneud trefniadau o'r fath yn achos gweithrediaeth maer a chabinet, gweithrediaeth arweinydd a chabinet a gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor yn y drefn honNo.

Mae Rheoliad 6 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan bwyllgor ardal o'r awdurdod hwnnw.

Mae Rheoliad 7 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan awdurdod lleol arall.

Mae Rheoliad 8 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau, o dan amgylchiadau penodedig, i swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall.

Os oes trefniadau wedi'u gwneud o dan Reoliad 7 neu 8 i swyddogaethau awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan weithrediaeth awdurdod lleol arall, mae Rheoliad 9 yn darparu bod y swyddogaethau hynny i gael eu trin fel swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod lleol arall hwnnw at ddibenion adrannau 14 i 16 o'r Ddeddf.

Os oes trefniadau wedi'u gwneud o dan Reoliad 7 i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan awdurdod lleol arall, mae Rheoliad 10 yn darparu i'r dasg o arfer y swyddogaethau hynny gael ei dirprwyo i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o'r awdurdod lleol arall hwnnw.

Mae Rheoliad 11 yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod lleol yng Nghymru gael eu cyflawni gan yr awdurdod hwnnw ac un neu ragor o awdurdodau lleol eraill ar y cyd neu gan gyd-bwyllgor.

Mae Rheoliad 12 yn darparu ar gyfer aelodaeth cyd-bwyllgor a benodir yn unol â threfniadau a wneir o dan Reoliad 11.

Mae Rheoliad 13 yn diddymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2001.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2002.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.